



## Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW

Dyddiad: 1 Mawrth 2021

Amser: 2.00pm

(Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell trwy Teams)

### Agenda

1	Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2	Datganiadau o Fuddiant
3	<b>Llythyrau a nodiadau sy'n deillio o Grŵp Cynghorwyr ERW, a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020</b> a) Llythyr Ymateb gan Gadeirydd Cyd-bwyllgor ERW b) Llythyr Grŵp Cynghorwyr ERW at Gyd-bwyllgor ERW c) Nodiadau'r cyfarfod
<b>Cyfeiriwch at <a href="#">Bapurau Cyd-bwyllgor ERW</a> 9 Chwefror 2021</b>	
4	<b>Diweddariadau gan y Cyfarwyddwr Arweiniol – Gareth Morgans</b> (a) Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd (b) Newidiadau i ERW a chynlluniau ar gyfer y dyfodol
5	<b>Diweddariadau gan Brif Swyddogion ERW – Ian Altman/Greg Morgan</b> (a) Effeithiau parhaus COVID-19 ar waith ERW (b) Adolygiad Estyn (c) Unrhyw eitem arall sy'n deillio o Gyd-bwyllgor ERW, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror
6	<b>Trafod pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor ERW sy'n deillio o'r cyfarfod hwn</b>

Os oes angen cyfieithiad Cymraeg i Saesneg ar yr un pryd, deialwch ar eich ffôn 0330 777 2413 ar ddechrau'r cyfarfod. Bydd yn gofyn am eich cod mynediad y byddwch yn dod o hyd iddo yn y cais / e-bost cyfarfod y mae'r agenda hon ynghlwm wrtho.

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

**01267 224050**

Dyddiad / Date:

E-bost / E-mail:

**15 Chwefror 2021**

**EDole@carmarthenshire.gov.uk**

**Y Cyngorydd Darren Price,**  
**Cadeirydd Pwyllgor Craffu ERW**  
(trwy e-bost yn unig)

Annwyl Cyng. Price/ Aelodau Pwyllgor Craffu ERW,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17eg o Ragfyr, 2020.

Rwy'n falch bod Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Arweiniol a Greg Morgan ac Ian Altman, Prif Swyddogion ERW wedi gallu mynychu eich cyfarfod ym mis Tachwedd ac ymateb i'ch cwestiynau.

Mae'n amlwg bod ERW wedi parhau i wneud cynnydd ac mae adroddiad diweddar ESTYN, **Cymorth awdurdodau lleol a Chonsortia Rhanbarthol i ysgolion ac UCDAu mewn ymateb i COVID-19** yn amlygu'r arfer effeithiol e.e. **Cameo: Cefnogi addysgu gwyddoniaeth**

*Rhannodd timau pwnc ERW ganllawiau clir a defnyddiol a oedd yn tawelu meddyliau ac yn cefnogi athrawon gwyddoniaeth yn y rhanbarth. Er enghraifft, rhoddodd tîm gwyddoniaeth ERW enghreifftiau o safleoedd ar-lein a oedd yn cynnwys arddangosiadau fideo o arbrofion, ac adnoddau defnyddiol ac ymgysylltiol y gallai athrawon eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell.*

*Darparodd swyddogion yn ERW gyfres o webinarau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac UCDAu sy'n rhoi trosolwg o'r offer sydd ar gael drwy Hwb i gefnogi dysgu cyfunol a phellter, gan ategu eu gwaith cynharach...*

*... Comisiynodd ERW yr Athro Robin Banerjee i ddarparu dysgu proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth staff o hunan-effeithiolrwydd a chysylltiad fel allwedd i gefnogi lles.*

Byddai'n briodol i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad hwn a Llythyr Estyn sy'n amlinellu ymateb penodol ERW.

O ran dyfodol ERW, mae trafodaethau'n parhau, a byddwn yn ystyried eich sylwadau o ran bod gwasanaethau a gomisiynir yn hyfyw ac yn gost-effeithiol i'r Consortiwm.

Y cynnig ar y bwrdd yw y bydd partneriaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar ôl troed y Fargen Ddinesig gyda Phowys a Cheredigion yn datblygu eu modelau eu hunain i gyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i ddiogelu a sicrhau bod y staff yn derbyn gofal ac yn cael ei ddiogelu ac nad yw unrhyw fodel newydd sy'n cynnwys cyflawni ar gyfer eraill yn niweidiol i'r partneriaid presennol- yn y pen draw gallai'r dull hwn fod yn un cynhyrchu incwm.

Ar hyn o bryd mae Cyfarwyddwyr yn cwblhau swyddogaethau craidd gofynnol partneriaeth newydd a fydd yn pennu'r math o strwythur staffio sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae'n amlwg y bydd gwasanaethu 4 Awdurdod Lleol yn cael effaith ar faint y tîm craidd.

Byddwn yn anelu at gael cymaint o arian yn uniongyrchol i ysgolion, os yw'n briodol, er mwyn iddynt allu datblygu ymateb lleol neu gaffael cymorth gan ysgolion eraill neu ERW. Yn anffodus, nid yw pob ysgol yn ddigon aeddfed eto i ddatrys eu problemau eu hunain a bydd angen adnodd canolog arnynt i gefnogi eu taith wella.

Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd angen inni gadw digon o arian yn ganolog i gefnogi'r tîm craidd a chyflawni'r swyddogaethau craidd fel y cytunwyd.


Cynigiwyd y Gwersi a Ddysgwyd gan yr Archwiliad Mewnol fel rhan o DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CONSORTIWM ERW 2019-20-

**Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd** - Dylid ystyried cynnal adolygiad Gwersi a Ddysgwyd er mwyn sefydlu methiannau ERW i sicrhau cynaliadwyedd y consortia yn y dyfodol.

Nid yw hyn wedi datblygu fel darn o waith ar wahân, ond mae trafodaethau rhwng Arweinwyr, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Addysg wedi mynegi'r heriau gyda'r model presennol ac y byddwn yn mynd i'r afael â hwy wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu newydd.

Byddwn yn hapus i swyddogion fynyachu cyfarfod yn y dyfodol i rannu cynnydd a phrofi rhai o'r syniadau.

Yn gywir,



**Y Cyngorydd Emlyn Dole**  
**Cadeirydd Cyd-Bwyllgor ERW**



At sylw:  
**Y Cyng. Emlyn Dole**  
Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu

Llinell y Swyddfa Gr: 01792 637256

e-bost: [scrutiny@swansea.gov.uk](mailto:scrutiny@swansea.gov.uk)

Dyddiad 17 Rhagfyr 2020

Annwyl Gynghorydd Dole

### **Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW – 26 Tachwedd 2020**

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i Gareth Morgans, Ian Altman a Greg Morgan am fod yn bresennol yn ein cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnem amdani, ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i adlewyrchu safbwyntiau'r cyfarfod hwnnw.

Roeddem yn falch o glywed am y cymorth cadarnhaol y mae ERW wedi'i ddarparu i'r rhanbarth yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig o ran dysgu ar-lein a dysgu cyfunol, fel ei gilydd, a rhannu arfer da. Dymunol oedd nodi bod yr adnoddau hyfforddi ar-lein a gyflwynwyd wedi cael eu croesawu'n fawr gan athrawon ac arweinwyr ysgolion, ac roeddem o'r farn y dylai'r ffurf hon o gymorth gael ei mabwysiadu a'i datblygu ymhellach mewn unrhyw fodel rhanbarthol newydd.

Trafodwyd y model(au) posibl ar gyfer ERW yn y dyfodol, gan gynnwys y cysyniad o gomisiynu gweithgareddau. Roeddem o'r farn na ddylai'r Awdurdodau Lleol hynny a fydd yn ffurfio craidd unrhyw gytundeb ar y cyd yn y dyfodol fod ar eu colled o ran sefydlu costau craidd canolog a pharhaus wrth ddarparu gwasanaethau comisiynu, o bosibl, i Awdurdodau Lleol eraill. Teimlwyd y dylai unrhyw awdurdod lleol sy'n comisiynu gwasanaethau gan gonsortiw m rhanbarthol yn y dyfodol dalu swm teg am y gwasanaethau, a ddylai gyfrannu at dalu costau craidd unrhyw gorff rhanbarthol newydd.

Hoffem weld ychydig o eglurder o ran pa effaith y byddai newidiadau sylweddol i unrhyw Gyd-bwyllgor neu fframwaith yn y dyfodol, er enghraifft un yn seiliedig ar ôl troed y Fargen Ddinesig, er enghraifft, yn ei chael ar dîm craidd ERW a chyllidebau craidd ERW. Hoffem hefyd ddeall a fydd yn darparu'r math o arbedion y mae rhai o'r Awdurdodau Lleol, er enghraifft Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion, wedi gofyn amdanynt. Rydym yn cydnabod bod 90% o gyllid cyfredol ERW yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion, ond hoffem wybod ym mha ffordd y byddai consortiw m yn y dyfodol yn cynyddu'r swm hwnnw. Byddai peidio â chynyddu canran a lefel y cyllid uniongyrchol i ysgolion yn sicr o beidio â bodloni honiadau o ran 'gwerth am arian' sydd

wedi'u mynegi'n flaenorol. Byddai gennym ddiddordeb mewn deall sut y bydd symud o gonsortiw m â chwe aelod i gonsortiw m a fydd, o bosibl, yn llai, yn gallu cyflawni hynny.

Hoffem weld y sail dystiolaeth ar gyfer unrhyw gynigion newydd fel y gallwn ddeall y cymhelliant allweddol, gyda ffocws clir ar wella ysgolion. Rydym wedi cael gwybod bod yna ddarn o waith ar y gwersi a ddysgwyd ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn amlinellu'r heriau sydd wedi wynebu'r consortiw m. Byddem yn croesawu cael cipolwg ar hwn pan fydd ar gael.

Gan fod yr agenda hon yn symud yn gyflym ac yn ansicr, cytunodd y Grŵp y gellid cynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cyfrannu at y trafodaethau ynghylch datblygu unrhyw fodel newydd. Felly, byddai cael gweld yr adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn golynnol ac yn cael ei werthfawrogi.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb yn nodi eich meddyliau ynghylch cynnwys ein llythyr.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Cyng. Darren Price**  
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW a Phwyllgor Craffu ar Addysg a**  
**Phlant Sir Gaerfyrddin**  
[daprice@carmarthenshire.gov.uk](mailto:daprice@carmarthenshire.gov.uk)



## Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW

Nodiadau – 26 Tachwedd 2020

### Yn bresennol:

Y Cyng. Darren Price, Sir Gaerfyrddin (Cadeirydd)

Y Cyng. Paul Rapi, Sir Benfro

Y Cyng. Lyndon Jones, Abertawe

Y Cyng. Peter Black, Abertawe

Y Cyng. Endaf Edwards, Ceredigion

Y Cyng. Wyn Thomas, Ceredigion

Michelle Roberts (Swyddog Craffu yn cefnogi'r cyfarfod, Abertawe)

Lisa Evans (Swyddog Craffu, Ceredigion)

Michelle Evans Thomas (Swyddog Craffu, Sir Gaerfyrddin)

Lydia Evans (Swyddog Craffu, Sir Benfro)

### Gwahoddwyd i fod yn bresennol:

Gareth Morgans, Y Prif Weithredwr Arweiniol

Greg Morgan, Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro ERW

Ian Altman, Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro ERW

### Ymddiheuriadau a dderbyniwyd:

Angela Davies (Powys), Y Cyng. John Davies (Sir Benfro), Sandra Davies (Powys), Y

Cyng. Edward Thomas (Sir Gaerfyrddin)

Eitem	
1.	<b>Datganiadau o Fuddiant</b> Dim
2.	<b>Nodiadau Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW, Llythyr at y Cadeirydd ac Ymateb y Cadeirydd, a hynny'n codi o gyfarfod Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020.</b> Derbyniwyd y llythyr a'r nodiadau.
3.	<b>Goblygiadau ac effaith COVID-19 ar ERW</b> Roedd Ian Altman/Greg Morgan (Rheolwyr Cyfarwyddwyr Dros Dro ERW) a Greg Morgan (Y Prif Weithredwr Arweiniol ar gyfer ERW) yn bresennol yn y cyfarfod, ac amlinellwyd y materion allweddol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y strwythur sefydliadol cyfredol ar gyfer ERW</li> <li>• Adroddiad Gweithgarwch ERW yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud</li> <li>• Adroddiad Gweithgarwch ERW Hydref 2020 ymlaen</li> <li>• Cynnig Dysgu Proffesiynol ERW 2020-21</li> <li>• Cynllun Busnes ERW 202-21, gan gynnwys Grwpiau Strategaeth a monitro/gwerthuso/adolygu.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllideb ERW</li> <li>• Cyfathrebu ag eraill a'r offer a ddefnyddiwyd</li> </ul>
4.	<p><b>Newidiadau i ERW a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol</b></p> <p>Roedd Greg Morgan (Y Prif Weithredwr Arweiniol ar gyfer ERW) yn bresennol yn y cyfarfod, ac amlinellodd y sefyllfa bresennol o ran newidiadau i ERW a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Nodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor ERW ym mis Gorffennaf cymeradwywyd penodiad Cadeirydd newydd y Cyd-bwyllgor, y Cynghorydd Emlyn Dole o Sir Gaerfyrddin, a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Rosemarie Harris o Bowys. Cadarnhawyd yn y cyfarfod hwnnw hefyd mai Gareth Morgans a fyddai'r Cyfarwyddwr Arweiniol.</li> <li>• Y sefyllfa gyfredol oedd bod Castell-nedd Port Talbot wedi gadael y Consortiwm ddiwedd mis Mawrth 2020, a bod Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe wedi cyhoeddi Hysbysiad Tynnu'n Ôl yn nodi eu bod yn bwriadu gadael ERW ddiwedd mis Mawrth 2021. Nid oedd Powys a Sir Benfro wedi cyhoeddi hysbysiadau.</li> <li>• Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf cafwyd ymrwymiad gan Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe ac, mewn egwyddor, gan Gastell-nedd Port Talbot, i ddatblygu partneriaeth newydd yn seiliedig ar ôl troed Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Dywedodd Ceredigion a Phowys y byddent yn datblygu dulliau amgen o ddarparu cymorth gwella ysgolion.</li> <li>• Ers i Gastell-nedd Port Talbot adael y Consortiwm, bu'n rhaid i bob awdurdod partner gynyddu ei gyfraniad i fynd i'r afael â'r diffyg. Roedd yna heriau o ran dyrannu cyllid i ERW gan Lywodraeth Cymru oherwydd i Gastell-Nedd Port Talbot dynnu'n ôl. Ni chafodd hyn ei ddatrys tan ddiwedd mis Awst.</li> <li>• Ym mis Gorffennaf, trafododd y Cyd-bwyllgor gais gan Gastell-nedd Port Talbot am i ERW barhau i ddarparu rhai rhaglenni cenedlaethol allweddol ar gyfer eu hysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o raglenni arweinyddiaeth, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gyfer y cwricwlwm.</li> <li>• Cytunodd y Cyd-bwyllgor i'r cais hwn, ond ar y sail na fyddai yna unrhyw anfantais ariannol i ERW. Er mwyn galluogi hyn, ac i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru, byddai angen Gweithred Amrywio i Gytundeb Cyfreithiol ERW.</li> <li>• Oherwydd pwysau ar Swyddogion Arweiniol o ganlyniad i'r pandemig ac o ganlyniad i ddarparu cymorth i ysgolion, cytunwyd y byddai adnodd ychwanegol yn ofynnol i gefnogi'r newidiadau arfaethedig i ERW. I'r perwyl hwnnw, mae Mr Ceri Davies, Pennaeth Adnoddau Dynol Sir Benfro, wedi'i secondio i ERW er mwyn cynorthwyo swyddogion gyda'r dasg o gyflawni penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor. Mae Ceri bellach wrth ei waith ac yn darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr.</li> <li>• Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Cyd-bwyllgor ar 13 Tachwedd. Gwnaed rhai penderfyniadau allweddol yn y cyfarfod hwnnw –       <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Cymeradwywyd Cynllun Busnes ERW a'r prosesau monitro cysylltiedig.</li> <li>b. Cytunwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r Cytundeb Cyfreithiol i alluogi ERW i ddarparu gwasanaethau i Ysgolion Castell-Nedd Port Talbot, a</li> </ol> </li> </ul>

	<p>phenderfynwyd llunio cytundeb ar wahân rhwng ERW a Chastell-Nedd Port Talbot ynglŷn â hyn.</p> <p>c. Cytunodd y Cyd-bwyllgor i wneud argymhelliad i bob awdurdod partner, yn unol â chymal Amrywio (Cymal 25) o Gytundeb Cyfreithiol ar y Cyd ERW, yn nodi y dylid gwneud newidiadau i'r Cytundeb Cyfreithiol er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Hwyluso diddymu/terfynu Consortiwm ERW;</i></li> <li>○ <i>Mynd i'r afael ag unrhyw rwymedigaethau/indemniadau dilynol gan yr Awdurdodau cyfredol a chyn Awdurdodau; a</i></li> <li>○ <i>Hwyluso cyfnod hysbysu llai ynghylch tynnu'n ôl, sef tri mis;</i></li> </ul> <p>Byddai hyn yn egluro materion yn ymwneud â dod â'r bartneriaeth gyfredol i ben ac yn lleihau'r cyfnod hysbysu i dri mis er mwyn galluogi'r rhai nad oeddent wedi cyflwyno hysbysiad i wneud hynny pe dymument. Gellid felly weithredu terfyniad o ddiwedd Mawrth 2021 pe bai unrhyw awdurdod yn dymuno gwneud hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltwyd â phob partner a deallid eu bod i gyd yn mynd ag adroddiadau i'w Cabinetau/Byrddau Gweithredol er mwyn eu galluogi i symud ymlaen â'r camau hyn. Roedd Penaethiaid Cyfreithiol pob Awdurdod Lleol yn llunio amrywiadau i'r cytundebau Cyfreithiol. Yn y cyfarfod, trafodwyd mater dyddiad dod â'r consortiwm cyfredol i ben. Cynigwyd y byddai 31 Awst 2021, yn hytrach na diwedd mis Mawrth, yn llawer mwy hwylus, a hynny oherwydd llwyth gwaith y staff a'r prosesau Adnoddau Dynol y byddai'n rhaid eu dilyn. Byddai hefyd yn cyd-fynd â diwedd y flwyddyn ysgol.</li> <li>• Cafwyd adroddiadau eraill mewn perthynas â chyllideb ac archwilio. Un argymhelliad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, oedd gweithredu Adolygiad o'r Gwersi a Ddysgwyd er mwyn pennu methiannau ERW ac ymgorffori unrhyw argymhellion yn nhrefniadau'r consortia yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau cynaliadwyedd consortia'r dyfodol. Gobeithid y gellid trafod hyn ym mis Rhagfyr 2020 ac yna ei weithredu cyn sefydlu partneriaeth newydd.</li> <li>• Diweddarwyd cofrestr Risgiau ERW a nodwyd un neu ddau o risgiau newydd, sef ynghylch cymwysterau 2021 ac ymateb i effaith COVID. Roedd risgiau eraill wedi cael eu hadolygu a lleihawyd y sgôr o ganlyniad i liniaru, e.e. cyfathrebu ag ysgolion, eglurder ar swyddogaethau a chydymffurfio â rheoliadau grant.</li> </ul>
5.	<p><b>Trafodaeth ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor ERW</b></p> <p>Byddai'r materion canlynol yn cael eu cynnwys yn y llythyr gan Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn falch o glywed am y cymorth cadarnhaol yr oedd ERW wedi'i ddarparu i'r rhanbarth yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig o ran dysgu ar-lein a dysgu cyfunol, fel ei gilydd, a rhannu arfer da.</li> <li>2. Model(au) posibl ar gyfer ERW yn y dyfodol, gan gynnwys y cysyniad o gomisiynu gweithgareddau. Teimlwyd na ddylai'r Awdurdodau Lleol hynny a fyddai'n ffurfio craidd unrhyw gytundeb ar y cyd yn y dyfodol fod ar eu colled o ran sefydlu costau craidd canolog a pharhaus wrth ddarparu gwasanaethau comisiynu, o bosibl, i Awdurdodau Lleol eraill. Teimlwyd y dylai unrhyw awdurdod lleol a fyddai'n comisiynu gwasanaethau gan</li> </ol>



	<p>gonsortiw m rhanbarthol yn y dyfodol dalu swm teg am y gwasanaethau, a ddylai gyfrannu at dalu costau craidd unrhyw gorff rhanbarthol newydd.</p> <p>3. Byddai'r Grŵp Craffu yn hoffi gweld ychydig o eglurder o ran pa effaith y byddai newidiadau sylweddol i unrhyw Gyd-bwyllgor neu fframwaith yn y dyfodol, er enghraifft un yn seiliedig ar ôl troed y Fargen Ddinesig, er enghraifft, yn ei chael ar dîm craidd ERW a chyllidebau craidd ERW. Byddai'r Grŵp hefyd yn hoffi deall a fyddai'n darparu'r math o arbedion yr oedd rhai o'r Awdurdodau Lleol, er enghraifft Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion, wedi gofyn amdanynt. Roedd y Grŵp yn cydnabod bod 90% o gyllid cyfredol ERW yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion, ond byddai'n hoffi gwybod ym mha ffordd y byddai consortiw m yn y dyfodol yn cynyddu'r swm hwnnw. Byddai peidio â chynyddu canran a lefel y cyllid uniongyrchol i ysgolion yn sicr o beidio â bodloni honiadau o ran 'gwerth am arian' a oedd wedi'u mynegi'n flaenorol. Byddai gan y Grŵp ddiddordeb mewn deall sut y byddai symud o gonsortiw m â chwe aelod i gonsortiw m a fyddai, o bosibl, yn llai, yn gallu cyflawni hynny.</p> <p>4. Byddai'r Grŵp Cynghorwyr yn hoffi gweld y sail dystiolaeth ar gyfer unrhyw gynigion newydd fel y gallai ddeall y cymhelliant allweddol, gyda ffocws clir ar wella ysgolion. Roedd y grŵp wedi cael gwybod bod yna ddarn o waith ar y gwersi a ddysgwyd ar y gweill ar y pryd, a fyddai'n amlinellu'r heriau a oedd wedi wynebu'r consortiw m. Byddai aelodau'r grŵp yn croesawu cael cipolwg ar hwn pan fyddai ar gael.</p> <p>5. Gan fod yr agenda hon yn symud yn gyflym ac yn ansicr, cytunodd y Grŵp y gellid cynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cyfrannu at y trafodaethau ynghylch datblygu unrhyw fodel newydd. Dywedwyd y byddai cael golwg cynnar ar hwn yn ganolog ac yn cael ei werthfawrogi.</p>
<p><b>6.</b></p>	<p><b>Dyddiad ac eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf</b>  Byddai cyfarfod nesaf Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW yn cael ei drefnu pan fyddai'r ddogfen Gwersi a Ddysgwyd ar gael i'r Grŵp ei hadolygu.</p>

## Rhestr o Aelodau Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW (2020/2021)

Awdurdod Lleol	Cynghorydd/Aelod-gynrychiolwyr	Cyfeiriadau e-bost yr Aelodau	Swyddogion Craffu a Swyddogion Cymorth eraill
Abertawe	<b>Y Cyng. Lyndon Jones</b> (Cynullydd y Panel Craffu ar Berfformiad Addysg ) <b>Y Cyng. Peter Black</b> (Pwyllgor Rhaglen Chraffu)	<a href="mailto:Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk">Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk</a>  <a href="mailto:Cllr.peter.black@swansea.gov.uk">Cllr.peter.black@swansea.gov.uk</a>	Michelle Roberts <a href="mailto:Michelle.roberts@swansea.gov.uk">Michelle.roberts@swansea.gov.uk</a>  Brij Madahar <a href="mailto:Brij.madahar@swansea.gov.uk">Brij.madahar@swansea.gov.uk</a>
Ceredigion	<b>Y Cyng. Endaf Edwards</b> <b>Y Cyng. Wyn Thomas</b> Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gymunedau sy'n Dysgu	<a href="mailto:endaf.edwards@ceredigion.gov.uk">endaf.edwards@ceredigion.gov.uk</a> <a href="mailto:wyn.thomas@ceredigion.gov.uk">wyn.thomas@ceredigion.gov.uk</a>	Lisa Evans <a href="mailto:Lisa.Evans3@ceredigion.gov.uk">Lisa.Evans3@ceredigion.gov.uk</a>
Powys	<b>Angela Davies</b> (Aelod Arweiniol y Grŵp Craffu ar Addysg) <b>Y Cyng. Sandra Davies</b> (Aelod o'r Grŵp Craffu ar Addysg)	<a href="mailto:angela.davies@powys.gov.uk">angela.davies@powys.gov.uk</a> <a href="mailto:cldr.sandra.davies@powys.gov.uk">cldr.sandra.davies@powys.gov.uk</a>	Wyn Richards <a href="mailto:Wyn.richards@powys.gov.uk">Wyn.richards@powys.gov.uk</a>
Sir Benfro	<b>Y Cyng. John Davies</b> (Cadeirydd y Pwyllgor Dysgu ac Ysgolion) <b>Y Cyng. Paul Rapi</b> (Is-gadeirydd y Pwyllgor Dysgu ac Ysgolion)	<a href="mailto:Cllr.johnt.davies@pembrokeshire.gov.uk">Cllr.johnt.davies@pembrokeshire.gov.uk</a> <a href="mailto:Cllr.paul.rapi@pembrokeshire.gov.uk">Cllr.paul.rapi@pembrokeshire.gov.uk</a>	Lydia Evans <a href="mailto:Lydia.evans@pembrokeshire.gov.uk">Lydia.evans@pembrokeshire.gov.uk</a>
Sir Gaerfyrddin	<b>Y Cyng. Darren Price</b> (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant) <b>Y Cyng. Edward Thomas</b> (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant)	<a href="mailto:DaPrice@cararthenshire.gov.uk">DaPrice@cararthenshire.gov.uk</a> <a href="mailto:EGThomas@cararthenshire.gov.uk">EGThomas@cararthenshire.gov.uk</a>	Michelle Evans Thomas <a href="mailto:MEEvansThomas@cararthenshire.gov.uk">MEEvansThomas@cararthenshire.gov.uk</a>
Arall	<b>ERW</b>	Ian Altman - Rheolwr Gyfarwyddwr Greg Morgan - Rheolwr Gyfarwyddwr Ruth Lee - Rheolwr Cymorth Busnes Gareth Morgans – Cyfarwyddwr Arweiniol	<a href="mailto:ian.altman@erw.org.uk">ian.altman@erw.org.uk</a> <a href="mailto:greg.morgan@erw.org.uk">greg.morgan@erw.org.uk</a> <a href="mailto:ruth.lee@erw.org.uk">ruth.lee@erw.org.uk</a> <a href="mailto:edgmorgans@cararthenshire.gov.uk">edgmorgans@cararthenshire.gov.uk</a>